# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mercher, 2 Chwefror 2022

Amser y cyfarfod: 13.30

## 50(v3)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr y Senedd ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

Mae'r Llywydd wedi penderfynu y bydd Aelodau, yn unol â Rheol Sefydlog 34.14A-D, yn gallu pleidleisio o unrhyw leoliad drwy ddull electronig.

### 1 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Cwestiynau i'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 3 Cwestiynau Amserol

(20 munud)

Gofyn i'r Gweinidog Cyfiawnder Cymdeithasol

**Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am daliad y cynllun cymorth tanwydd gaeaf?

## 4 Datganiadau 90 Eiliad

(5 munud)

## 5 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Gordewdra

(30 munud)

**NDM7903** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn mynegi ei phryder bod bron i ddwy ran o dair o oedolion yng Nghymru dros bwysau neu'n ordew ar hyn o bryd.

2. Yn nodi bod COVID-19 yn cael effaith anghymesur ar y rhai sy'n byw gyda gordewdra, a bod gan fwy na hanner y bobl sy'n cael eu derbyn i ofal critigol BMI o dros 30.

3. Yn nodi ymhellach bod gwasanaethau rheoli pwysau wedi'u hoedi neu eu haddasu wrth i GIG Cymru drin cleifion COVID.

4. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) ailagor ar frys y gwasanaethau rheoli pwysau hynny sydd wedi'u oedi yn ystod y pandemig;

b) nodi pryd y bydd gwasanaethau rheoli pwysau amlddisgyblaethol arbenigol yn cael eu hehangu ledled Cymru; ac

c) darparu cyllid ychwanegol i sicrhau bod gwasanaethau rheoli pwysau yn gallu ymdopi â'r angen cynyddol.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Lesley Griffiths (Wrecsam)

Dileu pwynt 4 a rhoi yn ei le:

Yn cydnabod:

a) y cynllun cyflawni newydd 2022-24, y bwriedir ei lansio ar 1 Mawrth, sy'n cefnogi'r Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach. Ei nod fydd atal a lleihau gordewdra dros y ddwy flynedd nesaf.

b) y buddsoddiad o £5.8m mewn gwasanaethau gordewdra yn sgil y cynllun, i alluogi byrddau iechyd i gyflawni Llwybr Rheoli Pwysau Cymru Gyfan ar ei newydd wedd a gwasanaethau cyfartal, gan gynnwys gwasanaethau rheoli pwysau amlddisgyblaethol arbenigol yng Nghymru.

Strategaeth Pwysau Iach: Cymru Iach

**Gwelliant 2** Siân Gwenllian (Arfon)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i flaenoriaethu mesurau ataliol i leihau gordewdra yng Nghymru, fel:

a) buddsoddi mewn adnoddau i hyrwyddo gweithgarwch corfforol ym mhob cymuned;

b) gwella addysg iechyd;

c) cynyddu'r amser a ddyrennir i wersi addysg gorfforol mewn ysgolion.

d) Ymchwilio i'r defnydd o offer trethu i annog deiet gwell.

## 6 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - Profiadau niweidiol yn ystod plentyndod

(30 munud)

**NDM7905** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn cydnabod yr effaith y mae profiadau niweidiol yn ystod plentyndod yn ei chael ar iechyd, cyrhaeddiad addysgol a chamddefnyddio sylweddau yn ddiweddarach mewn bywyd.

2. Yn credu y dylid rhoi mwy o ffocws i atal cam-drin ac esgeuluso plant na delio â'r canlyniadau.

3. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i osod targed o 70 y cant ar gyfer lleihau cam-drin plant, esgeulustod a phrofiadau niweidiol eraill yn ystod plentyndod erbyn 2030.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** [Siân Gwenllian (Arfon)]

Dileu popeth ar ôl pwynt 1, a rhoi yn ei le:

Yn credu bod rhaid blaenoriaethu taclo trallod yn ystod plentyndod ac ymyrraeth gynnar os am roi'r dechrau gorau i bob plentyn yng Nghymru.

Yn nodi'r dystiolaeth bod cynnydd wedi bod mewn profiadau niweidiol yn ystod plentyndod o ganlyniad i COVID-19.

*[Os derbynnir gwelliant 1, caiff gwelliant 2 ei ddad-ddethol]*

**Gwelliant 2** [Lesley Griffiths (Wrecsam)]

Dileu pwynt 3.

**Gwelliant 3** [Siân Gwenllian (Arfon)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau y bydd targedau pendant yn y cynllun profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a gaiff ei gyhoeddi'r haf hwn i fesur effeithiolrwydd y cynllun.

**Gwelliant 4** [Siân Gwenllian (Arfon)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddod â Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn rhan lawn o gyfraith Cymru.

## 7 Dadl y Ceidwadwyr Cymreig - 70 mlynedd ers esgyn i'r orsedd

(60 munud)

**NDM7904** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn estyn ei llongyfarchiadau cynhesaf i'w Mawrhydi y Frenhines ar 70 mlwyddiant ei hesgyniad i'r orsedd.

## 8 Dadl Plaid Cymru - Stelcio

(60 munud)

**NDM7906** Siân Gwenllian (Arfon)

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn gresynu at y cynnydd mewn trais ac aflonyddu yn erbyn menywod, gan nodi bod troseddau stelcio a adroddwyd i'r heddlu wedi cynyddu 30 y cant yng Nghymru rhwng 2020 a 2021.

2. Yn galw ar Lywodraeth Cymru i:

a) defnyddio'r cwricwlwm newydd ac adnoddau eraill i feithrin diwylliant sy'n atal achosion o stelcio yn y lle cyntaf;

b) llunio canllawiau ar gyfer cyrff cynllunio sy'n sicrhau bod diogelwch menywod yn cael ei ystyried wrth ddylunio mannau cyhoeddus;

c) gweithio gyda Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddu i wella'r ffordd y mae'r heddlu'n ymdrin â stelcio, gan sicrhau bod yr heddlu'n cael eu hyfforddi i ymdrin â gwir natur stelcio a bod gorchmynion amddiffyn rhag stelcio yn cael eu defnyddio;

d) darparu cymorth arbenigol i oroeswyr stelcio;

e) ymrwymo i fynd ar drywydd datganoli pwerau dros blismona a chyfiawnder i Gymru fel y gall fynd i'r afael yn llawn â throsedd stelcio a gwneud casineb at fenywod yn drosedd casineb yng Nghymru.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn croesawu Deddf Diogelu Rhag Stelcian 2019 a'r diwygiad i Fil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd i wneud casineb at fenywod yn drosedd casineb yng Nghymru a Lloegr.

Deddf Diogelu Rhag Stelcian 2019 (Saesneg yn unig)

Bil yr Heddlu, Troseddu, Dedfrydu a’r Llysoedd (Saesneg yn unig)

**Gwelliant 2** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ym mhwynt 2 (c), ar ôl 'gweithio gyda' rhoi 'lluoedd heddlu a'

**Gwelliant 3** Darren Millar (Gorllewin Clwyd)

Ym mhwynt 2, dileu is-bwynt (e) a rhoi yn ei le:

'sicrhau bod rhaglenni cyflawnwyr ar gael ledled Cymru'

## 9 Cyfnod Pleidleisio

## 10 Dadl Fer - TYNNWYD YN ÔL

(0 munud)

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mawrth, 8 Chwefror 2022

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 26/01/2022 i'w hateb ar 02/02/2022

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## Y GWEINIDOG CYLLID A LLYWODRAETH LEOL

**Luke Fletcher** *Gorllewin De Cymru*

1 OQ57577 **(e)**

Pa flaenoriaethau y mae'r Gweinidog yn eu hystyried wrth ddyrannu cyllid i'r portffolio cyfiawnder cymdeithasol?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

2 OQ57575 **(w)**

Pa asesiad y mae Llywodraeth Cymru wedi'i wneud o effaith yr argyfwng costau byw ar gyllidebau awdurdodau lleol?

**Laura Anne Jones** *Dwyrain De Cymru*

3 OQ57574 **(e)**

Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i gyfrifoldebau awdurdodau lleol dros gynnal a chadw ffyrdd wrth bennu'r gyllideb ar gyfer y portffolio newid hinsawdd?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

4 OQ57558 **(e)** Datganodd yr Aelod fuddiant

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau cyllid teg i awdurdodau lleol ledled Gogledd Cymru?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

5 OQ57544 **(e)**

Sut mae'r Gweinidog yn monitro gwerth am arian ac effeithiolrwydd gwariant Llywodraeth Cymru ar ddeddfwriaeth?

**Sarah Murphy** *Pen-y-Bont ar Ogwr*

6 OQ57569 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynlluniau i alluogi awdurdodau lleol i godi ardoll twristiaeth?

**Vikki Howells** *Cwm Cynon*

7 OQ57550 **(e)**

Pa ystyriaeth a roddodd y Gweinidog i gefnogi busnesau i ddelio ag effaith COVID-19 wrth ddyrannu cyllid i bortffolio'r economi?

8

**Rhun ap Iorwerth** *Ynys Môn*

OQ57554 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am y setliad llywodraeth leol i Gyngor Sir Ynys Môn ar gyfer 2022-23?

9

**Natasha Asghar** *Dwyrain De Cymru*

OQ57548 **(e)**

Pa ystyriaeth a roddwyd i wella seilwaith trafnidiaeth wrth bennu cyllideb y portffolio newid hinsawdd?

10

**Delyth Jewell** *Dwyrain De Cymru*

OQ57567 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o effeithiolrwydd cynllun gostyngiadau'r dreth gyngor wrth fynd i'r afael â'r argyfwng costau byw?

11

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

OQ57547 **(e)**

Pa asesiad y mae'r Gweinidog wedi'i wneud o setliad cyllideb Llywodraeth Cymru ar gyfer yr awdurdodau lleol sy'n gwasanaethu etholaeth Ogwr?

12

**Joyce Watson** *Canolbarth a Gorllewin Cymru*

OQ57571 **(e)**

Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud i sicrhau bod y system treth gyngor yng Nghymru yn deg?

## Y GWEINIDOG MATERION GWLEDIG A GOGLEDD CYMRU, A'R TREFNYDD

1

**Gareth Davies** *Dyffryn Clwyd*

OQ57566 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda'r Gweinidog Newid Hinsawdd ar effaith plaladdwyr ar iechyd gwenyn?

2

**Sian Gwenllian** *Arfon*

OQ57541 **(w)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cynnal gyda'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am wasanaethau fasgiwlar i gleifion o Arfon a phob rhan o'r gogledd ers ad-drefnu'r ddarpariaeth?

3

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

OQ57579 **(e)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi marchnata cig oen a chig eidion o Gymru?

**Peredur Owen Griffiths** *Dwyrain De Cymru*

4 OQ57572 **(e)**

Sut mae'r Llywodraeth yn cysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ar arolygiadau o'r trac rasio milgwn sy'n weddill yng Nghymru i sicrhau safonau lles anifeiliaid?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

5 OQ57543 **(e)**

Pa drafodaethau y mae'r Gweinidog wedi'u cael gyda chyd-Weinidogion yn y Cabinet ynghylch cysylltedd trafnidiaeth yng Ngogledd Cymru?

**Peter Fox** *Mynwy*

6 OQ57564 **(e)**

Sut bydd y cynllun ffermio cynaliadwy yn cefnogi prosiectau cadwraeth cynefinoedd?

**Llyr Gruffydd** *Gogledd Cymru*

7 OQ57576 **(w)**

A wnaiff y Gweinidog roi’r wybodaeth ddiweddaraf am ymdrechion i sicrhau y defnyddir unrhyw fwyd sy’n cael ei gynhyrchu yng Nghymru mewn ffordd effeithlon?

**Huw Irranca-Davies** *Ogwr*

8 OQ57546 **(e)**

Sut bydd y cynllun ffermio cynaliadwy yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

9 OQ57559 **(e)**

Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer y cynllun ffermio cynaliadwy?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

10 OQ57555 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r meini prawf ar gyfer derbyn cyllid o dan gronfa her ddatgarboneiddio a COVID Llywodraeth Cymru?

**Hefin David** *Caerffili*

11 OQ57552 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i sicrhau bod parthau perygl nitradau'n cael eu gorfodi'n effeithiol?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

12 OQ57545 **(e)**

A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer datblygu gwledig?